| | |
|---|---|
| **Cyfarfod :** | Cyngor |
| **Dyddiad :** | 4 Tachwedd 2025 |
| **Teitl :** | Trefn Datrys Mewnol |
| **Awdur :** | Iwan G D Evans – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol – Swyddog Monitro |
| **Pwrpas :** | Er argymell Trefn Datrys Mewnol diwygiedig i'w fabwysiadu gan y Cyngor |

**Cefndir**

1.O ddeutu 2013 mabwysiadodd pob prif gyngor yng Nghymru drefn datrys lleol ("TDLl"). Y bwriad oedd creu proses anffurfiol ar gyfer ymdrin â chwynion lefel isel heb yr angen am gŵyn ffurfiol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Crëwyd cwpl o fodelau gwahanol ar gyfer TDLl ar y pryd a mabwysiadodd Gwynedd drefn. Mae'r TDLl hwnnw wedi'i fireinio wedyn ond yn ar y cyfan wedi aros yr un peth. .

2. Adolygodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yr holl brotocolau datrys lleol yng Nghymru y llynedd. Cymerodd gyngor gan gwnsel ar broblemau a ganfyddwyd gydag un neu fwy o'r protocolau hynny .Canfyddwyd hefyd fod TDlL Gwynedd ymhlith y rhai oedd wedi eu hadnabod yn cynnwys esiamplau o ymarfer da. Fodd bynnag o ystyried y farn gyfreithiol roedd angen adolygu y trefniadau datrys. Roedd hyn o amgylch dau fater penodol yn achos trefniadau Gwynedd.

(a) Nid oes sail gyfreithiol glir ar gyfer rôl y Pwyllgor Safonau yn y weithdrefn. Y mater cyntaf yw absenoldeb pŵer cyfreithiol y Pwyllgor Safonau i orfodi penderfyniad drwy brosesau a fabwysiadwyd yn lleol. Yn ail, nid yw'r weithdrefn yn eithrio cwyn bosibl i'r Ombwdsmon ar unrhyw adeg. Yn y senario hwnnw byddai'r Pwyllgor Safonau eisoes wedi bod yn rhan o'r mater ac ni allai eistedd fel tribiwnlys annibynnol .

(b) Mae'r trefniadau yn anffurfiol a dylent fod yn ymwneud â chwynion lefel isel sy'n ymwneud â materion "mewnol".

Roedd y cyntaf o arwyddocâd penodol ac yn gyffredin i fwyafrif o drefniadau TRLl. Roedd yr 2il yn bwynt o eglurdeb ynglŷn a ffiniau y broses. Dylwn ychwanegu nad oes gennym gofnod o un achlysur o broses datrys yn mynd i'r 3ydd cam Pwyllgor Safonau

3. Mewn ymateb i hyn adolygwyd y TDLl a chynnig diwygiadau i'r Pwyllgor Safonau ystyried (Atodiad 1) Rhoesant ystyriaeth i'r adroddiad ar y 3ydd o Dachwedd ac argymell fod y Cyngor Llawn yn mabwysiadu y newidiadau.

**Penderfyniad a Geisir**

**Fod y Cyngor yn cymeradwyo y diwygiadau i'r Drefn Datrys Lleol fel y nodir yn Atodiad 1.**

**Swyddog Monitro**

Awdur yr adroddiad

**Prif Swyddog Cyllid**

"Rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir a nid oes gennyf sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol.